

COFNOD PENDERFYNIADAU CABINET - 9 MAWRTH 2021

Teitl yr Adroddiad	Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Domestig, Ward Caerau 2012 a 2013
Penderfyniad a Wnaed	Fe wnaeth y Cabinet: i) Nodi'r ymgysylltiad sydd wedi digwydd gyda Llywodraeth Cymru, OFGEM a'r cyflenwyr ynni ers adroddiad blaenorol y Cabinet ym mis Tachwedd 2020. ii) Cymeradwyo cyswllt parhaus pellach â rhanddeiliaid perthnasol sy'n ymwneud â'r gwaith inswleiddio waliau allanol/inswleiddio waliau mewnol yng Nghaerau. iii) Nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn amlinellu canlyniad yr ymgysylltiad parhaus ac yn amlinellu unrhyw ddatrysiadau y cytunwyd arnynt.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Er mwyn sicrhau bod y Cabinet yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran yr ymchwiliad i'r Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni Domestig a gynhaliwyd yn flaenorol yng Nghaerau.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr Cam 1
Penderfyniad a Wnaed	Fe wnaeth y Cabinet: 1. Gymeradwyo adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor ar 10fed Mawrth 2021 i ddiwygio'r Rhaglen Gyfalaf 2021-2022 ar gyfer cynnwys y cynllun hwn yn y Rhaglen Gyfalaf, gan nodi bod £500,000 eisoes wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf tuag at y cynllun; 2. Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cyngor i gynnwys y cynllun hwn yn y Rhaglen Gyfalaf a benthycu ar gyfer Prosiect DHN Tref Pen-y-bont ar Ogwr, fe wnaeth y Cabinet: i. Argymhell bod y Cyngor yn darparu benthyciad i'r SPV ar y telerau a nodir yn yr adroddiad hwn at ddibenion Prosiect DHN Tref Pen-y-bont ar Ogwr ac yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr i gytuno a chymeradwyo telerau terfynol y Cytundeb Benthyciad a threfnu gweithredu'r Cytundeb Benthyciad ar ran y Cyngor yn amodol ar bwerau o'r fath yn cael eu harfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog -

	<p>Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddiol a'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro.</p> <p>ii. Cymeradwyo ffurfio Cyfrwng ar Ddibenion Arbennig fel Cwmni Cyfyngedig gan gyfranddaliadau fel y nodir yn yr adroddiad hwn ("y Cwmni");</p> <p>iii. Cymeradwyo defnyddio 'Bridgend Heat & Power Ltd' fel enw'r Cwmni;</p> <p>iv. Cymeradwyo penodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau, Pennaeth Gweithrediadau Gwasanaethau Cymunedol a Phennaeth Gwasanaethau Partneriaeth yn Gyfarwyddwyr y Cwmni at ddiben o gynrychioli buddiannau'r Cyngor;</p> <p>v. Dirprwyo Awdurdod i'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio i ymrwmo i'r canlynol ac unrhyw gytundebau cysylltiedig eraill i alluogi sefydlu'r Cwmni:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Erthyglau Cymdeithasu - Cytundeb Cyfranddaliwr - Cytundeb Gwasanaethau Rheoli <p>vi. Cymeradwyo gweithredu'r mesurau llywodraethu a goruchwylio a amlinellir yn yr adroddiad;</p> <p>vii. Cymeradwyo i ymrwmo i Gytundeb Gwasanaethau Rheoli gyda'r Cwmni am ffi flynyddol / fisol sefydlog, a ariennir gan y Cwmni a dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Dros Dro - Cyllid, Perfformiad a Newid, i gwblhau'r ffi reoli a chytuno ar delerau'r Cytundeb Gwasanaethau Rheoli mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Rheoleiddio.</p>
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Mae Prosiect Rhwydwaith Gwres Tref Pen-y-bont ar Ogwr yn cael ei greu gyda'r prif ddiben o gyflawni datgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr a chyfrannu at greu Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr Sero-net erbyn 2030, yn unol â mandad Llywodraeth Cymru.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.
Teitl yr Adroddiad	Cyllid Cyrchfan Ddeniadol Twristiaeth Cornel Glyd
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <p>1. Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau i fwrw ymlaen â datblygu'r wybodaeth sy'n weddill sy'n ofynnol gan WEFO a Llywodraeth</p>

	<p>Cymru a gyflwynir yn adran 4.4 o'r adroddiad ac i ddefnyddio'r cyllid cyfatebol uniongyrchol y cytunwyd arno ar hyn o bryd o £384,615 i wneud hynny er mwyn sicrhau grant posib o £1m; a,</p> <p>2. Chytuno i dderbyn adroddiad pellach unwaith y bydd WEFO a Llywodraeth Cymru wedi cwblhau asesiad o'r naw cam maen prawf ar gyfer cael gafael ar gyllid posibl cyn symud ymlaen ymhellach.</p>
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Er mwyn cynnal ymarfer caffael i benodi penseiri a chymorth ymgynghorol gofynnol i symud y cynllun ymlaen o arfarniad opsiynau amlinellol y cynllun, i gam 3 RIBA. Bydd ymgymryd â hyn yn darparu mwy o sicrwydd cost, cadarnhad o lefel y cyllid cyfatebol sy'n ofynnol, yn cadarnhau cyflawniadau y byddai angen ystyried cymorth Cymorth Gwladwriaethol ar eu cyfer a phroffil cyflawni a ragwelir, mewn perthynas â chynigion cyffredinol y prosiect.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Penodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol
Penderfyniad a Wnaed	Cymeradwyodd y Cabinet benodi Llywodraethwyr Awdurdod Lleol fel yr amlinellir ym mharagraffau 4.1 a 4.2 o'r adroddiad.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Mae'r adroddiad hwn yn cynorthwyo i gyflawni'r flaenoriaeth gorfforaethol, cefnogi economi lwyddiannus a chymryd camau i wneud y sir yn lle da i wneud busnes, i bobl fyw, gweithio, astudio ac ymweld â hi, a sicrhau bod ein hysgolion yn canolbwyntio ar godi sgiliau, cymwysterau ac uchelgeisiau pawb yn y sir.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Polisi Derbyn i Ysgolion 2022-2023
Penderfyniad a Wnaed	Bod y Cabinet yn cymeradwyo'r Polisi Derbyn i Ysgolion 2022-2023.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021

Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol gyhoeddi polisi derbyn a chanllawiau ar y trefniadau derbyn ar gyfer ei ysgolion yn flynyddol.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Gwasanaethau Cartrefi Gofal – Trefniadau Ariannu a Chytundebol
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi'r adborth a dderbyniwyd gan ddarparwyr cartrefi gofal mewn perthynas â hyfywedd sefydlu fframwaith hyblyg a gafaelwyd yn agored o ddarparwyr cartrefi gofal; • Rhoi cymeradwyaeth i barhau â'r hepgoriad o dan Reol Gweithdrefn Contract 3.2.3, o'r gofyniad i dendro'n gystadleuol y ddarpariaeth o wasanaethau cartrefi gofal preswyl a nyrsio; • Rhoi cymeradwyaeth i ymrwymo i gontractau newydd gyda darparwyr gofal preswyl a nyrsio presennol, a llunio contractau gydag unrhyw ddarparwyr newydd a nodwyd gan yr Awdurdod Lleol, am gyfnod contract o hyd at chwe blynedd gyda thymor cychwynnol o 3 blynedd ac opsiwn i'w ymestyn am 3 blynedd arall; • Nodi'r dull o bennu ffioedd a gynhaliwyd ar gyfer y sector cartrefi gofal yn 2021/22.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Mynd ar drywydd y gwaith o ddatblygu ymhellach y ddarpariaeth o wasanaethau gofal preswyl a nyrsio yn y Fwrdeistref Sirol yn y dyfodol.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Cytundeb Partneriaeth y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Nodi cynnwys yr adroddiad;

	<ul style="list-style-type: none"> Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant i gytuno ar y telerau a gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Mae gweithredu'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) (SSWBA) 2014, yn ei dro, yn cefnogi'r gwaith o hyrwyddo dau o saith nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Drwy hyrwyddo amgylchedd sy'n gwneud y gorau o lesiant corfforol a meddyliol pobl a thrwy gefnogi plant, pobl ifanc, oedolion a'u gofalwyr a'u teuluoedd i gyflawni eu potensial waeth beth fo'u hamgylchiadau. Bydd y Cytundeb Partneriaeth yn helpu ymhellach i gefnogi'r uchod.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Trefniadau Partneriaeth ar gyfer Hyfforddiant Dementia
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gymeradwyo ymrwymo i'r cytundeb partneriaeth gyda CTMUHB er mwyn sicrhau'r manteision cadarnhaol i'r rhai sy'n byw gyda dementia fel y nodir yn yr adroddiad, ac yn atal y rhannau perthnasol o CPRs y Cyngor mewn perthynas â'r gofynion sy'n ymwneud â chaffael y ddarpariaeth hyfforddi a datblygu dementia y bydd CTMUHB yn ei chyflawni; Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol – Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i gymeradwyo telerau terfynol y cytundeb partneriaeth gyda CTMUHB ar ran y Cyngor ac i drefnu i'r cytundeb gael ei weithredu ar ran y Cyngor, ar yr amod bod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol a Phrif Swyddog Dros Dro – Cyllid , Perfformiad a Newid.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021

Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Bydd cymeradwyo cytundeb partneriaeth gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg gyda'r bwriad o weithio gyda hwy ar y cyd, yn cefnogi'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol drwy weithgarwch dysgu a datblygu ar y cyd, a fydd yn ei dro yn gwella bywydau pobl y mae dementia yn effeithio arnynt.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Drws Ffrynt Rhanbarthol ar gyfer Recriwtio Rhieni Maeth – Gofal Cymdeithasol Plant
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gymeradwyo'r gwaith o gydweithio'n rhanbarthol â Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar gyfer creu Drws Ffrynt Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg ar gyfer Recriwtio Rhieni Maeth a fydd yn alinio recriwtio maethu ar draws Pen-y-bont ar Ogwr, Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful. • Dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid, a'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol, i gytuno a chymeradwyo telerau'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol a chytundeb y gronfa gyfun a threfnu i'r cytundeb cydweithredu rhanbarthol a chytundeb y gronfa gyfun gael ei weithredu ar ran y Cyngor. • Dirprwyo awdurdod i Bennaeth Gofal Cymdeithasol Plant i gynrychioli a gwneud penderfyniadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y Bwrdd Strategol. • Dirprwyo awdurdod i Reolwr Grŵp, Lleoliadau a Gwasanaethau Darparwyr a Rheolwr Tîm, Maethu Pen-y-bont ar Ogwr i gynrychioli a gwneud penderfyniadau ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ar y Bwrdd Gweithredol
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Bydd cydweithio ag awdurdodau cyfagos yn cryfhau recriwtio maethu ar draws y tri Awdurdod sy'n cymryd rhan.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.

Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Gofal a Chymorth yng Ngharchar ei Mawrhydi a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <ul style="list-style-type: none"> Gymeradwyo hepgor Rheolau Gweithdrefn Contract y Cyngor o dan Reol 3.2.3 o'r rhannau perthnasol o Reolau Gweithdrefn y Contract ar gyfer caffael y ddarpariaeth o ofal a chymorth o fewn HMP a YOI Parc, ar y sail mai dim ond un sefydliad yn dechnegol sy'n gallu darparu'r gwasanaeth hwn. Wedi dirprwyo awdurdod i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, i gymeradwyo telerau terfynol y contract gyda G4S Health Services (UK) Ltd ar ran y Cyngor ac i drefnu i'r cytundeb gael ei weithredu ar ran y Cyngor, ar yr amod bod awdurdod dirprwyedig o'r fath yn cael ei arfer mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol a Phrif Swyddog Dros Dro – Cyllid, Perfformiad a Newid.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Ymrwymo i gontract newydd gyda G4S Health Services (UK) Ltd o 1 Ebrill 2021 am gyfnod o 2 flynedd gyda'r opsiwn i ymestyn hyd at 2 flynedd ymhellach, oherwydd bod y cytundeb presennol bellach wedi dod i ben.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Ardrethi Annomestig: Rhyddhad yn ôl Disgresiwn: Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch a Hamdden Uwch 2020-21
Penderfyniad a Wnaed	Mabwysiadodd y Cabinet hwnnw'r Cynllun Rhyddhad Ardrethi Lletygarwch a Hamdden Ardrethi Annomestig Uwch ar gyfer 2020-21 fel y nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Bydd y Cynllun yn cefnogi busnesau a feddiannir cymwys o fewn y sector lletygarwch a hamdden yng Nghymru sydd â gwerth ardrethol dros £500,000.

Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Cynhaliwyd ymgynghoriad cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.

Teitl yr Adroddiad	Rhaglen Genedlaethol Taliadau Tir Lleol
Penderfyniad a Wnaed	<p>Fe wnaeth y Cabinet:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Dirprwyo Awdurdod i'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddiol i gytuno ar delerau'r Cytundeb Cydweithredol gydag HMLR ac unrhyw gytundebau ategol ac i drefnu i gytundebau o'r fath gael eu gweithredu ar ran y Cyngor; 2. Nodi y bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ar Raglen Genedlaethol LIC.
Dyddiad Gwneud Penderfyniad	9 Mawrth 2021
Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw	Er mwyn bodloni gofynion y Cyngor o dan y Rhaglen Genedlaethol Taliadau Tir Lleol.
Datgelu Buddiannau Personol	Dim.
Goddefeb wedi'i Chaniatáu gan Bwyllgor Safonau'r Cyngor	Dim.
Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad	Cyfreithiol, Cyllid a'r Aelod Cabinet perthnasol.